



Polisi Masnach Deg

POLISI MASNACH DEG

PRIFYSGOL METROPOLITAN CAERDYDD

1. Cwmpas a Phwrpas

Diben y Sefydliad Masnach Deg ydy sicrhau bargaen deg ar gyfer cynhyrchwyr difreintiedig sy wedi'u hymyleiddio yn y Trydydd Byd. Mae'r Sefydliad yn dyfarnu marc o safon sef y Marc Masnach Deg, i nwyddau sy'n bodloni safonau o fasnach deg a chydabuwyd yn rhyngwladol.

Mae darparu nwyddau Masnach Deg yn dangos ymrwymiad Prifysgol Metropolitan Caerdydd ac Undeb Myfyrwyr Prifysgol Metropolitan Caerdydd i gynladwyedd. Mae cynnal statws Masnach Deg yn creu cyfle i godi ymwybyddiaeth o foeseg y Brifysgol ymhlith darpar fyfyrwyr. Mae rôl y Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr yn hollbwysig o fewn y gymuned ryngwladol gan taw mater bwys byd eang ydy Masnach Deg.

I gyflawni statws Masnach Deg, mae'r Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr wedi cwrdd â'r safonau canlynol;

- Annog staff a myfyrwyr i brynu nwyddau Masnach Deg i'w ddefnyddio yn y Brifysgol.
- Ymrwymo i hyrwyddo cynnydd yn y defnydd o nwyddau Masnach Deg ar y Campws.
- Sefydlu Grŵp Llywio Masnach Deg

Fe wnawn ni parhau i weithio tuag at y nodau hyn wrth weithredu i gynnal statws Masnach Deg trwy weithio tuag at gyflawni meini prawf Achrediad Prifysgolion newydd y Sefydliad Masnach Deg.

Dylid darllen y polisi hwn ar y cyd â'r:

- Strategaeth Gynaliadwyedd
- Polisi Cynaliadwyedd
- Polisi Bwyd Cynaliadwy

2. Polisi Masnach Deg

Mae'r Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr wedi ymrwymo i gefnogi, hyrwyddo a defnyddio nwyddau Masnach Deg. I gyflawni hyn, byddant yn cyflawni a chynnal statws Masnach Deg fel y diffiniwyd gan y Sefydliad Masnach Deg, ac yn ymrwymo i'r 11 meini prawf hanfodol gan anelu i gyflawni statws tair seren fel y diffiniwyd gan y Sefydliad yma www.fairtrade.org.uk

2.1 Grŵp Llywio Masnach Deg. Bydd y Grŵp Llywio Masnach Deg yn cyfarfod bob tymor i ddatblygu, cydlynu a goruchwyllo'r gwaith o weithredu Polisi Masnach Deg a Chynllun Gweithredu SMART y Brifysgol i gynnal a chyflawni achrediad Prifysgol Masnach Deg.

Bydd y Grŵp Llywio Masnach Deg yn cynnwys myfyrwyr a staff, cynrychiolwyr adran Lletygarwch y Brifysgol, yr adran Cynaliadwyedd ac Undeb y Myfyrwyr.

- 2.2 Cynllun Gweithredu SMART. Bydd y Grŵp Llywio Masnach Deg yn cydlynu ac yn cyhoeddi Cynllun Gweithredu SMART. Bydd y cynllun yn ymgorffori ystyriaethau gweithredol megis caffael ac arlwyo, ymgyrchu a dylanwadu, ymgysylltu a chyfathrebu a bydd yn canolbwyntio'n gryf ar fesur a gwerthuso'r holl weithgareddau. Bydd uwch reolwyr a/neu'r cyrff llywodraethu yn ei gymeradwyo. Bydd y Cynllun Gweithredu yn cwmpasu'r holl feini prawf gorfodol ac yn anelu at gyflawni'r holl feini prawf uchelgeisiol realistig ar gyfer achrediad.
- 2.3 Hyrwyddo Masnach Deg. Bydd y Grŵp Llywio Masnach Deg yn cydgysylltu â staff, myfyrwyr a'r gymuned i drefnu digwyddiadau cyhoeddusrwydd a gweithgareddau ymgysylltu bob blwyddyn. Bydd y grŵp yn anelu at sicrhau bod ymwybyddiaeth Masnach Deg yn cael ei gynnal ac ehangu cyrhaeddiad ymgyrch y Brifysgol ac annog myfyrwyr a staff i brynu a chwilio am gynhyrchion Masnach Deg. Cynhelir cyfres o'r digwyddiadau hyn yn ystod Pythefnos Masnach Deg a chaiff eu heffeithiau eu mesur a'u defnyddio i lywio ymgyrchoedd Masnach Deg pellach. Yn ogystal â Phythefnos Masnach Deg, bydd un neu fwy o ymgyrchoedd arloesol i addysgu staff, myfyrwyr a'r gymuned ar Fasnach Deg yn cael eu cyflwyno mewn partneriaeth â myfyrwyr drwy gydol y flwyddyn.
- 2.4 Cynnyrch Masnach Deg. Bydd yr holl siopau manwerthu neu arlwyo sy'n eiddo i Undeb y Brifysgol a'r Myfyrwyr yn gweithio i gynyddu stoc o gynnyrch Ardystiedig Masnach Deg. Bydd y cynnyrch hyn yn cael eu hyrwyddo i staff a myfyrwyr sydd â deunydd Pwynt Gwerthu (PG) cyfredol ac effeithiol ym mhob siop berthnasol. Bydd deunyddiau'r PG yn tynnu sylw at gynhyrchion Masnach Deg ac yn darparu gwybodaeth am fanteision Masnach Deg i gymunedau sy'n tyfu.
- 2.5 Bydd coffi, te a siwgr Masnach Deg yn cael eu gweini ym mhob cyfarfod a gynhelir gan y Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr ac mewn ystafelloedd cyfarfod. Bydd cynhyrchion Masnach Deg eraill ar gael ar gyfer lletygarwch lle bo hynny'n addas. Pan fydd lletygarwch yn cael ei archebu a'i ddarparu bydd deunydd hyrwyddo clir i ddangos mai cynnyrch Masnach Deg a gweinir.
- 2.6 Ymchwil a Chwricwlwm. Bydd y Grŵp Llywio Masnach Deg yn cynnal gweithgareddau cwmpasu perthnasol i lywio ei waith Masnach Deg drwy ddeall i ba raddau y mae myfyrwyr a staff yn deall Masnach Deg ac yn graddio ei arwyddocâd. Bydd y canlyniadau sy'n deillio o'r gweithgareddau yn cael eu defnyddio i lywio ymgyrchoedd Masnach Deg.

Bydd cyfleoedd yn cael eu darparu i fyfyrwyr o unrhyw ddisgyblaeth i ymchwilio i faterion Masnach Deg ar neu oddi ar y campws o fewn eu gwaith cwrs neu eu traethodau.

2.7 Adroddiad Blynyddol. Bydd Adroddiad Cynnydd Masnach Deg Blynyddol yn cael ei gyhoeddi, gan gyfeirio at dasgau a chynnydd a wneir drwy gynllun gweithredu SMART. Caiff yr adroddiad hwn ei integreiddio yn yr Adroddiad Cynaliadwyedd Blynyddol a bydd ar gael i'r cyhoedd.

3. Rolau a Chyfrifoldebau

Mae'r polisi yn eiddo i'r Rheolwr Ymgysylltu â Chynaliadwyedd a Chynorthwydd Gweithredol Undeb Myfyrwyr Met Caerdydd ac fe'i gweithredir gan Grŵp Llywio Masnach Deg o dan eu cyfarwyddyd.

Bydd perchnogion y polisi yn cyflwyno'r Polisi Masnach Deg yn rheolaidd i'r Pwyllgor Cynaliadwyedd i'w fonitro, ei adolygu a'i gymeradwyo'n flynyddol. Bydd angen i'r Bwrdd Rheoli gymeradwyo pob diwygiad i'r polisi yn derfynol.

4. Adolygiad Polisi

Yn ystod y gymeradwyaeth, byddai aelodau o staff y Brifysgol a'r gymuned fyfyrwyr mewn grŵp ffocws polisi/strategaeth wedi adolygu'r polisi hwn ac wedi rhoi eu hadborth.

Bydd y Brifysgol yn annog aelodau o staff y Brifysgol a'r gymuned fyfyrwyr a rhanddeiliaid perthnasol eraill yn barhaus i ymgysylltu â'r Polisi Masnach Deg drwy bostio'r polisi ar dudalennau gwe'r Brifysgol sydd wedi'u lleoli o dan yr adran Polisiau Cynaliadwyedd a thudalennau Gwe Undeb y Myfyrwyr gyda'r manylion cyswllt priodol.

Dylid anfon adborth ar y Polisi Masnach Deg yn uniongyrchol i:

Rheolwr Ymgysylltu â Chynaliadwyedd: sustainability@cardiffmet.ac.uk

Cynorthwyol Gweithredol Undeb y Myfyrwyr: studentunion@cardiffmet.ac.uk

Er mwyn sicrhau ymgysylltiad effeithiol, caiff yr holl adborth ei adolygu yn y Pwyllgor Cynaliadwyedd bob tymor.

Mae'r ddogfen hon wedi'i chreu, ei hadolygu a'i chymeradwyo gan y Pwyllgor Cynaliadwyedd Ebrill 2020, sy'n cynnwys Partneriaethau Dirprwy Is-Ganghellor ac Ymgysylltu Allanol, Rheolwr Ymgysylltu â Chynaliadwyedd, Perchnogion Agweddau EMS, Undeb y Myfyrwyr – Llywydd yr SU a Swyddog Amgylcheddol Rhan-amser yr SU, Undebau Llafur a chynrychiolwyr Academaidd Ysgolion. Cyflwynwyd y drafft i ymgynghoriadau'r Grwpiau Ffocws ar staff a gwirfoddolwyr myfyrwyr, wedi'i ddiweddarau a'i gymeradwyo ar y Pwyllgor Cynaliadwyedd ar 3 Medi 2020.

Os oes gennych unrhyw sylwadau neu os hoffech wirfoddoli ar gyfer y Strategaeth / Polisi Cynaliadwyedd, cysylltwch â Sustainability@cardiffmet.ac.uk